**<u>PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>**
**<u>26 IONAWR 2022</u>**

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 26 Ionawr 2022

**<u>YN BRESENNOL</u>: Y Cynghorydd Neville Phillips (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, David Evans, David Healey, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Ian Smith ac Arnold Woolley

**<u>YMDDIHEURIADAU:</u>** Y Cynghorydd Bernie Attridge

**<u>HEFYD YN BRESENNOL</u>:** Mynychodd y Cynghorwyr Patrick Heesom a Christine Jones fel arsylwyr

**<u>HEFYD YN BRESENNOL</u>:** Prif Swyddog (Llywodraethu)

## 22. <u>DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)</u>

Dim.

## 23. <u>COFNODION</u>

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd.

Cafodd y cofnodion eu cynnig fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Chris Bithell a’u heilio gan y Cynghorydd Mike Peers.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 24. <u>CYNLLUN DEISEBAU DRAFFT</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) gynllun deisebau drafft, a fydd yn galluogi aelodau’r cyhoedd i drefnu a chyflwyno deisebau yn uniongyrchol i’r Cyngor Sir. Roedd Adran 42 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fyddai’n dod i rym o 5 Mai 2022, yn rhoi dyletswydd ar brif gynghorau i wneud a chyhoeddi cynllun deisebau.

Roedd Swyddogion wedi drafftio cynllun deisebau, yn seiliedig ar y meini prawf addasrwydd ar gyfer cwestiynau’r Cyngor, gyda chopi yn Atodiad 1 yr adroddiad. Roedd hyn wedi bod mewn lle ers rhai blynyddoedd ac yn dilyn adolygiad roedd yn dal i gael ei ystyried yn addas gyda chyflwyniad deisebau electronig yn cael eu rheoli gan ddefnyddio meddalwedd Modern.gov a oedd yn cefnogi’r system pwyllgorau.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorwyr Bob Connah a Rob Davies.

Siaradodd y Cynghorydd Vicky Perfect o blaid y gofyniad bod rhaid i lofnodwr fyw neu weithio o fewn ardal y Cyngor, a dywedodd fod deisebau blaenorol wedi'u derbyn o wledydd eraill mewn perthynas â Chastell y Fflint.

Ceisiodd y Cynghorydd Ted Palmer eglurhad na fyddai deisebau gan sefydliadau megis change.org yn cael eu derbyn. Eglurodd y Prif Swyddog y byddai system ddeisebau'r Cyngor ar gael yn eang ond bod angen adeiladu sicrwydd i mewn i gynllun y Cyngor ei hun. Roedd y Cynghorydd Palmer yn cefnogi'r argymhelliad hwn gan ei fod yn teimlo y byddai'n anodd asesu lle'r oedd yr holl lofnodwyr yn byw ac yn gweithio drwy unrhyw gynlluniau deisebau eraill.

Awgrymodd y Cynghorydd Mike Peers y dylai Aelodau lleol gael eu hysbysu o unrhyw ddeisebau a gyflwynir er mwyn delio ag unrhyw ymholiadau gan drigolion lleol a all godi o'r ddeiseb, a gofynnodd hefyd a fyddai mecanwaith ar gael er mwyn i'r cyhoedd apelio os oeddent yn teimlo nad oedd y ddeiseb wedi cael ei drin yn gywir. Gwnaeth sylw ar yr adolygiad o ddeisebau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol a chwestiynodd os oedd Aelodau lleol yn gallu cyflwyno deiseb i'r Cyngor Sir yn dilyn gwrthod unrhyw ddeisebau ar-lein yn sgil eu priodolrwydd. I gloi, cwestiynodd y cynnig na ddylai deisebau gael eu derbyn os oeddent yn ymwneud â cheisiadau cynllunio. Teimlodd y byddai deiseb ar gais cynllunio yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd wneud sylw, yn arbennig ar geisiadau graddfa fawr, a hefyd yn rhoi mwy o safbwyntiau i'r Pwyllgor.

Siaradodd y Cynghorydd Chris Bithell o blaid caniatáu pobl a oedd yn byw a gweithio tu allan i'r Sir i gyflwyno ac arwyddo deisebau ar-lein. Roedd yn teimlo y dylai barn trigolion mewn siroedd cyfagos ac sy'n ymweld â Sir y Fflint yn rheolaidd ar gyfer siopa a thwristiaeth, gael eu clywed. Gwnaeth sylw ar y cynnig y byddai'r Prif Weithredwr yn penderfynu sut i ymateb i ddeiseb a gofynnodd pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i beidio gweithredu, y byddai rheswm hefyd yn cael ei ddarparu. O ran deisebau ar geisiadau cynllunio, amlinellodd enghreifftiau lle'r oedd ceisiadau cynllunio wedi parhau i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio lle'r oedd deisebau wedi cael eu cyflwyno ar y cais.

Ymatebodd y Prif Swyddog i'r sylwadau a wnaed. Eglurodd fod y penderfyniad i ganiatáu llofnodwyr i weithio neu fyw tu allan i'r Sir yn fater ar gyfer y Pwyllgor. Cefnogodd yr argymhelliad bod Aelodau lleol yn cael eu hysbysu o'r deisebau a gyflwynir ar faterion o fewn eu wardiau ac awgrymodd fod safbwyntiau aelodau lleol ar sylwedd y ddeiseb yn cael eu casglu. O ran sylwadau mewn perthynas â deisebau ar geisiadau cynllunio, eglurodd fod prosesau sefydledig ar gyfer ymgynghori ar geisiadau cynllunio ac ni ddylai deisebau alluogi ystyriaeth bellach o geisiadau os yw penderfyniad wedi cael ei wneud. Cefnogodd y sylwadau o ran cyfyngiadau a chytunodd y dylai'r un cyfyngiadau fod yn gymwys i unrhyw ddeisebau a gyflwynir gan Aelodau mewn cyfarfodydd y Cyngor Sir a dywedodd ei fod yn hapus i ddarparu cyngor i Aelodau ar briodolrwydd deisebau.

Yn dilyn ystyriaeth bellach o ran a ddylai deisebau ar-lein gael eu derbyn os ydynt yn ymwneud â cheisiadau cynllunio unigol, awgrymodd y Prif Swyddog y dylai deisebau gael eu caniatáu ar gyfer ceisiadau cynllunio agored ac y dylai'r ddeiseb gael ei drin fel ymateb i ymgynghoriad y cais. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym hwn.

Yn dilyn trafodaeth bellach o ran llofnodwyr deisebau ar-lein, awgrymodd y Cynghorydd Michelle Perfect y dylai'r prif lofnodwr weithio neu fyw yn y Sir ac y byddai holl lofnodwyr eraill yn gallu gweithio neu fyw tu allan i'r Sir. Cefnogodd y Cynghorydd Bithell yr awgrym hwn ac awgrymodd hefyd y dylai'r cyfiawnhad dros hyn, a amlinellir yn y cynllun, gael ei addasu fel a ganlyn, 'Mae hyn er mwyn sicrhau fod y llofnodwyr yn ddilys, gyda diddordeb yn Sir y Fflint neu'r mater o dan sylw'. Cefnogodd y Pwyllgor yr awgrymiadau hyn.

Wrth grynhoi'r sylwadau/argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor, amlinellodd y Prif Swyddog y newidiadau arfaethedig canlynol i'r Cynllun Deisebau Drafft fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad:-

- Er mwyn cael ei ystyried yn ddilys, rhaid i lofnodwr ddarparu eu henw, cyfeiriad, cod post a chyfeiriad e-bost. Rhaid i'r llofnodwr cyntaf, sef yr hyrwyddwr, fyw, gweithio, gwirfoddoli ac ati, o fewn ardal y Cyngor;
- Bod cyfiawnhad dros yr uchod, yn cael ei addasu fel a ganlyn, 'Mae hyn er mwyn sicrhau fod y llofnodwyr yn ddilys, gyda diddordeb yn Sir y Fflint neu'r mater o dan sylw';
- Bod deisebau a dderbynnir mewn perthynas â cheisiadau/apeliadau cynllunio, trwydded neu grant sydd heb eu penderfynu, yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol a'i drin fel ymateb i ymgynghoriad y cais/apêl hwnnw;
- Bydd yr aelod ward yn cael ei hysbysu am ddeiseb a dderbynnir gan hyrwyddwr gyda chyfeiriad o fewn y ward honno. Gofynnir i'r aelod ward am eu barn ar y ddeiseb a'r dull gwaredu arfaethedig;
- Bod ymateb i'r ddeiseb yn cael ei anfon i hyrwyddwr y ddeiseb a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor;
- Gall yr hyrwyddwr wrthwynebu (apelio) os ydynt yn credu nad yw'r ddeiseb wedi cael ei drin yn gywir; ac
- Ni dderbynnir deisebau os ydynt yn ymwneud â cheisiadau neu apeliadau cynllunio, trwydded neu grant unigol sydd eisoes wedi'u penderfynu gan y Cyngor.

Fel cynigydd ac eilydd gwreiddiol yr argymhellion a amlinellwyd o fewn yr adroddiad, cefnogodd y Cynghorydd Bob Connah a'r Cynghorydd Rob Davies yr addasiadau arfaethedig i'r Cynllun Deisebau Drafft fel yr amlinellwyd gan y Prif Swyddog.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Cefnogi Cynllun Deisebau drafft, fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad, gyda'r addasiadau canlynol:-

- Er mwyn cael ei ystyried yn ddilys, rhaid i lofnodwr ddarparu eu henw, cyfeiriad, cod post a chyfeiriad e-bost. Rhaid i'r llofnodwr cyntaf, sef yr hyrwyddwr, fyw, gweithio, gwirfoddoli ac ati, o fewn ardal y Cyngor;
- Bod cyfiawnhad dros yr uchod, yn cael ei addasu fel a ganlyn, 'Mae hyn er mwyn sicrhau fod y llofnodwyr yn ddilys, gyda diddordeb yn Sir y Fflint neu'r mater o dan sylw';

- Bod deisebau a dderbynnir mewn perthynas â cheisiadau/apeliadau cynllunio, trwydded neu grant sydd heb eu penderfynu, yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol a'i drin fel ymateb i ymgynghoriad y cais/apêl hwnnw;
- Bydd yr aelod ward yn cael ei hysbysu am ddeiseb a dderbynnir gan hyrwyddwr gyda chyfeiriad o fewn y ward honno. Gofynnir i'r aelod ward am eu barn ar y ddeiseb a'r dull gwaredu arfaethedig;
- Bod ymateb i'r ddeiseb yn cael ei anfon i hyrwyddwr y ddeiseb a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor;
- Gall yr hyrwyddwr wrthwynebu (apelio) os ydynt yn credu nad yw'r ddeiseb wedi cael ei drin yn gywir; ac
- Ni dderbynnir deisebau os ydynt yn ymwneud â cheisiadau neu apeliadau cynllunio, trwydded neu grant unigol sydd eisoes wedi'u penderfynu gan y Cyngor.

**25. <u>CYNLLUN GWEITHREDU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth Drafft, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr Adroddiad. Bwriad y cynllun gweithredu drafft oedd lleihau neu dynnu rhwystrau i etholiad ymysg y grwpiau a dangynrychiolir ac roedd yn cynnwys cyfres o ffrydiau gwaith.

Ers 2018, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi bod yn edrych os oedd demograffeg cynrychiolwyr etholedig yn adlewyrchu demograffeg yr ardaloedd yr oeddent yn ei gynrychioli. Yn 2021 penderfynodd annog holl Gynghorau yng Nghymru i ymrwymo i'w datganiad amrywiaeth mewn democratiaeth eu hunain er mwyn ceisio gwneud y cohort Cynghorwyr etholedig yn fwy adlewyrchol o'r boblogaeth ar y cyfan. Cafodd yr 11 maes allweddol ar gyfer ystyriaeth eu crynhoi o fewn yr adroddiad a manylodd y Prif Swyddog ar y camau arfaethedig mewn perthynas â bob maes o fewn y cynllun gweithredu drafft, a ddangosir yn Atodiad 1.

Fe wnaeth y Prif Swyddog hefyd ddarparu manylion o'r sylwadau/awgrymiadau a wnaed gan Aelodau yn ystod y sesiynau briffio a gynhaliwyd er mwyn ystyried y cynllun gweithredu drafft a sut cafodd y rhain eu hystyried wrth gyflwyno'r adroddiad.

Gwahoddodd y Prif Swyddog y Cydlynydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a Gofal Cymdeithasol i wneud sylw ar y cynllun gweithredu drafft, gan ddiolch iddi am ei gwaith wrth ddrafftio'r cynllun gweithredu. Nid oedd y Cydlynydd yn dymuno ychwanegu unrhyw beth i'r cyflwyniad a roddwyd gan y Prif Swyddogion, ond awgrymodd y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ychwanegu argymhelliad ychwanegol i'r Pwyllgor fonitro'r cynllun gweithredu wrth symud ymlaen.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd o fewn yr adroddiad, ynghyd â'r argymhelliad ychwanegol i'r Pwyllgor fonitro'r cynllun gweithredu yn y dyfodol, ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Chris Bithell ac Ian Smith.

Siaradodd Chris Bithell o blaid yr adroddiad ac amlinellodd gwaith blaenorol y Cyngor, a gafodd gydnabyddiaeth genedlaethol i gynyddu amrywiaeth ac annog pobl i ddod yn Gynghorwyr. Dywedodd ei fod yn siomedig

gweld fod nifer y bobl ifanc a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn isel ac amlinellodd y gwaith roedd y Cyngor wedi'i wneud i sefydlu Cyngor Ieuenctid a chyfleoedd yn y gorffennol i bobl ifanc fynychu cyfarfodydd gyda Chynghorwyr i drafod materion. Gwnaeth sylw ar bolisïau cyflogaeth ar gyfer sefyll ar gyfer swydd gyhoeddus a dywedodd er y gall gyflogwyr letya hyn, gall ddod yn Gynghorydd a chael amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu cyfarfodydd ac ati, effeithio ar gyfleoedd o fewn y gyflogaeth yn y dyfodol.

Er ei fod yn croesawu'r cynigion, siaradodd y Cynghorydd Ian Smith am gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y boreau/prynhawniau gan atal pobl ifanc rhag sefyll ar gyfer etholiad. Dywedodd bod cyfarfodydd Pwyllgor yn y bore yn golygu fod rhaid i Gynghorwyr gymryd diwrnod llawn o'r gwaith er mwyn mynychu. Gwnaeth sylw hefyd ar gyfarfodydd gyda chyrff allanol yn cael eu cynnal yn ystod y dydd ac anallu Cynghorwyr a oedd yn gweithio llawn amser i gwrdd yn rheolaidd â'r Heddlu ac ati, yn sgil ymrwymiadau gwaith.

Siaradodd y Cynghorydd Mike Peers am y gefnogaeth a dderbyniodd gan gyflogwr mawr oedd â Pholisi ar gyfer sefyll am swydd gyhoeddus, pan benderfynodd ef sefyll fel Cynghorydd. Dywedodd hefyd bod angen cymorth i bobl a oedd yn dymuno sefyll fel Cynghorwyr a gwybodaeth a chyngor hefyd. Cyfeiriodd ar y cynllun gweithredu a gofynnodd pryd fyddai'r amserlen ar gyfer yr amcanion yn cael ei gwblhau.

Gwnaeth nifer o Aelodau sylw a rhoi esiamplau o'r anawsterau a wynebwyd gyda chydweithwyr wrth gael amser i ffwrdd i fynychu cyfarfodydd a chyflawni dyletswyddau fel Cynghorwyr, a theimlwyd y gallai hyn fod yn rhwystr i bobl sy'n dymuno sefyll ar gyfer etholiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Peers, eglurodd y Prif Swyddog y byddai'r amserlen yn cael ei gwblhau cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Chwefror 2022. Yn y cyfamser, byddai swyddogion yn dechrau gweithio ar rai o'r camau a amlinellwyd o fewn y cynllun gweithredu.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynllun gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth; a

(b) Bod y Pwyllgor yn monitro'r cynllun gweithredu mewn cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

## 26. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.25 pm)

..................................................
**Cadeirydd**